



Modiwl 2B Cymru

Canllawiau ar gadw seddi ar gyfer gwrandawiadau Ymchwiliad Covid-19 y DU

Mae 20 sedd ar gael yn yr oriel gyhoeddus yn ystafell gwrandawriad Modiwl 2B Cymru Ymchwiliad Covid-19 y DU, ac mae'r mwyafrif o'r rhain ar gael i'w cadw.

Mae gweddill y seddi yn ystafell y gwrandawriad, a'r holl seddi yn yr ystafell wyllo, ar gael ar sail 'y cyntaf i'r felin', yn bersonol, ar ddiwrnod y gwrandawriad.

Y ffurflen cadw sedd

Gellir cadw seddi gan ddefnyddio Ystafell Gwrandawriad Ymchwiliad Covid-19 y DU - Ffurflen Cadw Seddau sydd ar gael ar [Wefan Covid-19](#)

Os nad yw dyddiad i'w weld ar y ffurflen archebu, yna naill ai nid yw wedi'i ryddhau eto, neu mae'r seddau neilltuedig ar gyfer y dyddiad hwnnw'n llawn. Os nad oes ffurflen archebu ar gael, mae hyn oherwydd bod pob sedd ar gyfer yr wythnos honno wedi'u harchebu'n llawn.

Mae'r ffurflen archebu ar gael i unrhyw un ei defnyddio er mwyn cadw sedd yn yr oriel gyhoeddus yn ystafell y gwrandawriad.

Ni chaniateir i aelodau'r cyfryngau ddefnyddio'r system archebu hon ac mae'n rhaid iddynt gysylltu â media@covid19.public-enquiry.uk a thîm cyfryngau'r Ymchwiliad os dymunant fynychu'r gwrandawriadau.

Argaeledd

Bydd seddau cadw yn agor wythnos cyn bod wythnos gwrandawriad i fod i ddechrau, a bydd yn parhau i gael ei rhyddhau ar sail treigl wythnosol.

Mae archebion yn cau ganol dydd y diwrnod cyn i'r gwrandawriad ddechrau.

Os nad yw dyddiad i'w weld ar y ffurflen archebu, yna naill ai nid yw wedi'i ryddhau eto, neu mae'r seddau neilltuedig ar gyfer y dyddiad hwnnw'n llawn.

Cadw sedd

Mae'n rhaid cadw lle ar gyfer unigolyn a enwir. Mae'r ffurflen archebu yn caniatáu i unigolyn archebu lle drosto'i hun, neu ar ran rhywun arall, ar gyfer yr wythnos i ddod.

Dylid osgoi archebion bloc ar gyfer unigolion lluosog.

Dim ond ar gyfer dyddiadau y gall yr unigolyn a enwir fod yn bresennol y dylid cadw lle.

Bydd unigolion yn cael eu hysbysu drwy e-bost gan operations.team@covid19.public-inquiry.uk os yw eu sedd wedi'i harchebu - dim ond trwy e-bost ymateb y caiff archeb ei chadarnhau.

Os yw diwrnod penodol yn llawn, ni fydd yr e-bost yn cadarnhau'r archeb ond bydd yn awgrymu archebu diwrnod arall neu fanteisio ar y seddi sydd ar gael ar y diwrnod yn unig, neu yn yr ystafell wyllo

Yng nghanolfan y gwrandawriad

Wrth gyrraedd canolfan y gwrandawriad, dylai unigolion a enwyd sydd ag e-bost wedi'i gadarnhau i gadw seddi gyflwyno'u hunain i'r tîm blaen tŷ, gan ddangos yr e-bost cadarnhau.

Rhoddir cortyn gwddf 'Ymwelydd' iddynt. Mae'n rhaid gwisgo hwn bob amser y tu mewn i Ganolfan y Gwrandawriad a'i roi yn ôl pan fyddant yn gadael.

Cansladau

Os nad yw unigolion yn gallu bod yn bresennol, canslwch o flaen llaw drwy e-bostio operations.team@covid19.public-inquiry.uk

V.6 07 Chwef 2024